



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Primecare (North Wales) Ltd

**Primecare North Wales
71 Ffordd Bryniau
Llandudno
LL30 2DZ**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/11/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Primecare (North Wales) Ltd

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Primecare (North Wales) Ltd
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	12 Awst 2019
Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Mae'r staff gofal yn rhoi gofal o ansawdd da sy'n ystyried anghenion unigol y bobl ac yn eu helpu i deimlo'n ddiogel. Dywedodd y bobl wrthym fod y staff gofal yn hwyliog ac yn ofalgar, a gwnaethant ganmol y gwasanaeth. Dywedodd y perthnasau wrthym fod y staff gofal a'r tîm rheoli yn treulio amser gyda nhw er mwyn sicrhau eu bod nhw hefyd yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

Mae'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol yn ymrwymedig i'r gwasanaeth ac am ddarparu gofal a chymorth o ansawdd uchel wedi'u teilwra'n bersonol i'r bobl. Maent yn deall yr angen i gefnogi'r staff gofal er mwyn sicrhau eu bod yn fodlon yn eu gwaith. Mae'r staff gofal yn ymrwymedig i ddiwallu anghenion y bobl sy'n cael gofal ganddynt. Dywedodd y bobl a'r staff wrthym cymaint y maent yn gwerthfawrogi'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol. Dywedodd y staff gofal wrthym fod y rheolwr a'r unigolyn cyfrifol bob amser ar gael i'w cefnogi.

Llesiant

Gwrandewir ar ddymuniadau'r bobl a chaiff eu hanghenion unigol eu hystyried. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom siarad â phobl sydd wedi bod yn cael gwasanaeth ers sawl blwyddyn, a ddywedodd wrthym cymaint y maent yn ymddiried yn y rheolwr a'r staff gofal i ddiwallu eu hanghenion. Mae cofnodlyfr canmoliaeth y gwasanaeth yn helaeth a gwelsom fod pobl yn cysylltu'n rheolaidd i roi gwybod cymaint y maent yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth. Dywedodd un perthynas wrthym, "*...the care, attention and support received from Primecare has been great and allows my relative to continue to live in their own home.*" Dywedodd person arall wrthym, "*They are a very kind team and very reliable*".

Mae'r staff gofal yn rhoi'r gofal a'r cymorth cywir i ddiwallu anghenion y bobl. Caiff y bobl eu cefnogi i wneud cymaint â phosibl drostynt eu hunain, gan eu galluogi i gynnal eu hannibyniaeth. Dywedodd y bobl wrthym fod amser yr ymweliadau yn diwallu eu hanghenion, a gwelsom fod yr ymweliadau gofal yn cael eu trefnu'n unol â'r cynlluniau personol.

Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel yn derbyn y gwasanaeth ac yn hyderus y gallent gysylltu â'r rheolwr pe bai ganddynt bryderon. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom dystiolaeth o ymarfer da gan y rheolwr wrth gydgyssylltu â gweithwyr proffesiynol eraill er mwyn cadw'r bobl yn ddiogel rhag niwed.

Caiff y bobl eu cefnogi i wneud pethau sydd o bwys iddynt. Clywsom sut mae'r gwasanaeth wedi helpu rhai o'r bobl i wella eu hyder. Mae un person wedi gallu cwrdd â ffrindiau a chymdeithasu'n fwy rheolaidd oherwydd y gofal a gafodd.

Gall y bobl gael gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg os byddant yn dewis hynny. Caiff dewisiadau'r bobl eu hystyried mewn holiadur sy'n rhan o'r rhag-asesiad. Mae llawer o'r staff gofal yn siarad Cymraeg a chawsom wybod pe byddai cais yn dod i law am siaradwr Cymraeg, y gellid bodloni'r cais hwnnw. Caiff pob aelod o'r staff gofal eu hannog i ddysgu cyfarchion Cymraeg.

Gofal a Chymorth

Mae'r rheolwr yn ymgynghori â'r bobl a pherthnasau i sicrhau bod eu dymuniadau a'u canlyniadau yn cael eu cynnwys yn eu cynlluniau personol. Roedd y cynlluniau personol a welsom yn cynnwys digon o fanylion am sut roedd pob person am gael ei ofal, gan gynnwys dewisiadau o ran sut i dorri bwyd yn ystod amseroedd bwyd. Maent wedi'u hysgrifennu yn y person cyntaf, gan sicrhau bod anghenion a dymuniadau'r bobl wrth wraidd y cynllun. Gall y bobl a'u perthnasau gyfrannu at y cynlluniau personol. Dywedodd y perthnasau y gwnaethom siarad â nhw fod yr amser sy'n cael ei dreulio a'r gofal a gymerir wrth lunio'r cynlluniau personol yn rhoi tawelwch meddwl iddynt. Disgrifiodd un aelod o'r staff y cynlluniau hyn fel "*very personalised*".

Mae'r rheolwr yn diweddarau'r cynlluniau personol yn rheolaidd, a gwelsom enghraifft o gynllun gofal interim ar gyfer newid tymor byr i anghenion unigolyn. Mae hyn yn golygu bod y wybodaeth ddiweddaraf am sut i roi gofal a chymorth i bob unigolyn bob amser ar gael i'r staff gofal. Mae'r staff gofal yn rhoi gofal cyson o ansawdd da drwy ddilyn y cynlluniau personol hyn. Dywedodd un perthynas wrthym fod y staff gofal a'r rheolwr yn gweithio '*above and beyond*'. Disgrifiwyd sut roeddent hefyd wedi cael cymorth a chyngor ymarferol i'w helpu yn eu rôl ofalu. Dywedodd perthynas arall "*...their manager is an excellent source of information and advice*".

Mae'r staff gofal yn rhoi gwybod i'r rheolwr am unrhyw risgiau sy'n effeithio ar y bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt. Mae'r rheolwr yn adolygu'r risgiau ac yn ystyried camau i helpu'r bobl i'w rheoli. Gwelsom dystiolaeth o gydgyssylltu da â gweithwyr proffesiynol eraill i leihau'r risgiau i'r bobl. Caiff y staff gofal gymorth â gweithdrefnau codi a chario, a dywedwyd wrthym y gallant wneud cais am hyfforddiant ychwanegol neu drefniadau cysgodi os bydd angen.

Mae polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau cadarn ar gael i'r staff gofal er mwyn sicrhau eu bod yn dilyn arferion hylan diogel. Gall y staff gofal gasglu cyfarpar diogelu personol o'r swyddfa, a gwelsom fod cyflenwad da ar gael.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn chwarae rhan ymarferol yn y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn adnabod pob person sy'n cael gwasanaeth a phob aelod o'r staff yn dda. Gwelsom ei fod yn ymweld â'r bobl yn rheolaidd, a'i fod weithiau yn ymgymryd ag ymweliadau gofal ei hun neu'n rhoi cymorth i'r staff gofal. Dywedodd y bobl a'r staff wrthym faint y maent yn gwerthfawrogi'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol, a dywedwyd eu bod yn "exceptional". Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a'u bod wrth eu bodd yn y gwaith. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym, *"we have an outstanding and fully committed manager who is to me a continual source of encouragement and inspiration"*. Dywedodd perthynas wrthym fod y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn mynd *"...the extra mile for the cared for, the carer and their team in support and kindness."*

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau archwiliadau trylwyr, ac yn darllen pob tudalen o'r nodiadau dyddiol yn ogystal â phob siart feddyginiaeth ei hun, er mwyn sicrhau bod gofal a chymorth o ansawdd uchel yn cael eu rhoi. Mae'n llunio adroddiadau bob 3 mis ar ei ymweliadau ac yn dosbarthu holiaduron sicrhau ansawdd bob blwyddyn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gweithio tuag at ddatblygu a gwella ei adroddiadau ar ymweliadau a'i adolygiadau o ansawdd y gofal.

Mae gan y gwasanaeth ddigon o staff i ddiwallu anghenion y bobl. Mae aelodau newydd o staff gofal yn cael cyfnod sefydlu trylwyr sy'n ymdrin â'r holl anghenion hyfforddi hanfodol. Maent hefyd yn treulio 2-3 wythnos yn cysgodi, a gellir ymestyn y cyfnod hwn os bydd angen i'w helpu i feithrin hyder yn eu rôl. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod wedi cael cymorth da yn ystod eu cyfnod sefydlu. Mae'r cymorth hwn yn parhau a chynhelir sesiynau goruchwylio a hapwiriadau rheolaidd. Dywedodd un gweithiwr proffesiynol y gwnaethom siarad ag ef wrthym fod cyfraddau cadw staff y gwasanaeth yn dda, a gwnaethom siarad â rhai aelodau o'r staff gofal a oedd wedi gweithio yn y gwasanaeth ers sawl blwyddyn. Mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn ymwybodol bod angen adnewyddu rhywfaint o hyfforddiant y staff, ac maent wrthi'n ymdrin â hynny.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy yn ariannol a gwelsom ei fod yn buddsoddi yn y staff er mwyn galluogi'r gwasanaeth i ddatblygu. Mae system dda ar waith i helpu'r staff â chostau teithio a cherbydau.

Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn cael digon o amser i gwblhau eu galwadau, ac i deithio rhwng pob ymweliad. Mae'r staff gofal yn cysylltu â'r rheolwr os byddant yn rhedeg yn hwyr ac yn sicrhau bod y bobl yn cael gwybod am hynny.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 18/01/2024